Cyfnod cwestiynau

Os bydd gwenynen feirch yn eich pigo, dylech roi finegr ar y colyn – pam?

Ond os bydd gwenynen yn eich pigo, dylech roi soda pobi ar y colyn. Ydych chi'n gallu meddwl pam?

Mae asid yn ein cegau yn gallu gwneud niwed i'n dannedd. Rydyn ni'n defnyddio past dannedd bob dydd i niwtraleiddio'r asid. Mae past dannedd yn …?

Pan fyddwn ni'n dioddef o ddiffyg traul, rydyn ni'n cymryd tabledi diffyg traul.
Mae diffyg traul yn cael ei achosi gan ormod o asid yn y stumog. Beth mae tabledi diffyg traul yn ei wneud a sut?

Mae pridd weithiau'n asidig. Beth mae ffermwyr yn ei ychwanegu at y caeau i helpu eu cnydau i dyfu? Pam?